Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Gwent Is Coed

**Ffordd Dyffryn**
**Dyffryn**
**Casnewydd**
**NP10 8BX**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Gwent Is Coed

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gyfun Gwent Is Coed |
| Awdurdod lleol | Casnewydd |
| Iaith y darparwr | Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 451 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 451 |
| Nifer yn y chweched ddosbarth (os yw’n berthnasol) | - |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy’n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd<br><br>*(Canran cenedlaethol y disgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol yn y sector uwchradd dros y tair blynedd diwethaf yw 18.7%)* | 16.4% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a)<br><br>(*Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector uwchradd yw 21.7%*) | 25.7% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy’n siarad Cymraeg yn y cartref | 9.3% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw’n berthnasol) | - |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad hwn | 09/05/2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw’r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Flynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i’r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

Fy Ysgol Leol (gov.wales)

(a) Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
[Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

## Trosolwg

Mae llawer o ddisgyblion Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn falch o fod yn rhan o gymuned yr ysgol. Maent yn cyd-dynnu'n dda gan ddangos parch at safbwyntiau ei gilydd. Yn gyffredinol, maent yn elwa o gyfleoedd pwrpasol i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi. Maent yn cydweithio'n gynhyrchiol gyda'u hathrawon, yn gweithio'n ddiwyd trwy gydol y wers ac yn ymateb yn adeiladol i adborth llafar ac ysgrifenedig. Nid yw ychydig o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarn at ddysgu gan olygu nad ydynt yn gwneud digon o gynnydd. Ar y cyfan, nid yw'r cynllunio strategol ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth lles a chynhwysiant yn ddigon cadarn i sicrhau bod athrawon ac arweinwyr yn gweithio'n ddigon rhagweithiol i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Nodwedd gref o ddarpariaeth yr ysgol yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafar. Mae llawer o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn effeithiol gan gynnig atebion estynedig da wrth ymateb i gwestiynau neu wrth gyflwyno safbwynt mewn trafodaeth. Mae arweinwyr yr ysgol wedi cydweithio'n effeithiol i sicrhau datblygiad proffesiynol staff i gefnogi addysgu medrau llafar ac mae effaith hyn i'w gweld yn y gwersi. Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau darllen, ysgrifennu a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Eto, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu huwch fedrau darllen a'u cymhwysedd digidol.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n herio disgyblion yn addas. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau pynciol. Mae tasgau'r wers yn adeiladu'n synhwyrol gan olygu bod cyflymdra addas i'r dysgu. Mewn ychydig o wersi ble mae disgyblion yn gwneud cynnydd buan, mae athrawon yn addasu cyflymder y dysgu yn gelfydd i ymateb i anghenion y disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn cynllunio eu gwersi yn grefftus i sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd cryf.

Ers ei phenodi ym Mehefin 2020, mae'r pennaeth wedi gweithio'n ddiwyd gyda'r dirprwy bennaeth i sicrhau rhediad esmwyth yr ysgol drwy gyfnod heriol y pandemig. Yn ogystal, maent wedi rheoli'r ysgol tra bod gwaith yn parhau i gwblhau'r adeiladau. Golyga hyn mai ychydig o le sydd gan ddisgyblion i gymdeithasu a chwarae tu allan. Mae safle'r ysgol yn un eang iawn.

Mae gan yr ysgol brosesau hunanwerthuso yn cynnwys gweithgarwch buddiol fel arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion ac mae'r canfyddiadau'n bwydo yn briodol i gynlluniau gwella'r ysgol. Eto, nid yw systemau ar gyfer casglu gwybodaeth yn canolbwyntio'n ddigon penodol ar gynnydd a medrau disgyblion nac ansawdd y ddarpariaeth.

## Argymhellion

A1 Cryfhau capasiti'r arweinyddiaeth i sicrhau bod arweinwyr ar draws yr ysgol yn gweithredu'n fwy strategol yn eu meysydd cyfrifoldeb

A2 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol disgyblion

A3 Sicrhau darpariaeth fwy cydlynol ar gyfer datblygu medrau darllen, rhifedd a chymhwysedd digidol disgyblion

A4 Cryfhau gallu arweinwyr i arfarnu ansawdd y ddarpariaeth yn sgil ei heffaith ar ddysgu, medrau a lles disgyblion

A5 Ymateb i'r mater iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau pynciol yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Gallant adalw dysgu blaenorol yn dda, ar y cyfan, ac adeiladu ar hyn yn briodol. Nid yw ychydig o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu gwersi. Mae hyn yn bennaf oherwydd eu hagweddau at ddysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar eu hathrawon. Maent hefyd yn barchus wrth wrando ar gyfraniadau eu cyd-ddisgyblion wrth weithio mewn parau neu grŵp. Mae llawer o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn hyderus wrth drafod a chyflwyno barn ar lafar. Mae ganddynt eirfa gyffredinol a phwnc-benodol gadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn aml, maent yn cynnig atebion estynedig er mwyn esbonio eu safbwyntiau wrth ymateb i gwestiynau'r athro neu wrth gyfrannu i drafodaeth. Maent yn defnyddio strwythurau brawddegau a gyflwynwyd gan eu hathrawon yn effeithiol er mwyn datblygu eu medrau llafar. Mae ychydig o ddisgyblion yn cyfathrebu'u syniadau yn goeth. Er enghraifft, yn y gwersi Saesneg, mae disgyblion yn cynnig eglurhad aeddfed a deallus gan gydnabod safbwyntiau eu cyfoedion a llunio gwrthddadleuon wrth drafod sut mae hysbysebion yn defnyddio stereoteipio i apelio i gynulleidfa.

Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio strategaethau priodol i leoli ffeithiau a chywain gwybodaeth wrth ddarllen amrywiaeth addas o destunau. O gael y cyfle, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ar goedd yn effeithiol gan amrywio goslef llais a chyflymder yn briodol. Mae gan ychydig o ddisgyblion mwy galluog uwch fedrau darllen soffistigedig. Maent yn adnabod nodweddion arddull ac yn trafod eu heffaith ar y darllenydd yn grefftus. Fodd bynnag, nid yw disgyblion ar draws yr ystod gallu yn gwneud datblygiad digon cadarn yn eu huwch fedrau darllen.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn ysgrifennu'n rhugl gan fynegi eu hunain yn briodol. Serch hyn, mae camgymeriadau sillafu a chystrawen letchwith yn britho gwaith ysgrifenedig lleiafrif o ddisgyblion. Mae gan y mwyafrif o ddisgyblion afael addas o eirfa pwnc penodol ac maent yn trefnu eu gwaith yn ofalus mewn paragraffau. Mae ychydig o ddisgyblion yn meddu ar eirfa gyfoethog iawn ac yn mynegi eu hunain yn hynod effeithiol. Maent yn strwythuro eu gwaith yn gelfydd i greu effaith ar y darllenydd. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio nodweddion arddull ysgrifennu portread yn hyfedr wrth ysgrifennu am 'Taid' yn eu gwersi Cymraeg.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhif yn briodol, er enghraifft wrth ddefnyddio'r pedair rheol rhif. Maent yn llunio graffiau gan ddefnyddio echelinau a graddfeydd yn gywir. Mae tua hanner y disgyblion yn hyderus wrth gyfrifo a defnyddio canrannau a ffracsiynau ac wrth gyfnewid rhyngddynt. Mae gan ychydig o ddisgyblion fedrau rhif cryf. Er enghraifft, yn eu gwersi ffiseg, gallant lunio ffurfiau ton gydag amledd a thonfedd benodol a chyfrifo eu buanedd. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau cyfrifo sylfaenol.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sylfaenol yn addas er mwyn llunio cyflwyniadau a phrosesu geiriau. Mae tua hanner y disgyblion yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o godio.

Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn briodol. Er enghraifft, yn eu gwersi addysg gorfforol, mae'r disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd osgo'r pen i wella techneg gwibio. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol addas, er enghraifft trwy arbrofi â theipograffeg a chyfryngau gwahanol i greu graffiti yn eu gwersi celf.

Yn gyffredinol, mae disgyblion y chweched dosbarth yn mynegi eu hunain yn effeithiol ar lafar wrth drafod eu gwaith a'u cyfraniad i fywyd yr ysgol. Mae rhan fwyaf ohonynt yn ymgymryd â'u gwaith yn gydwybodol er mwyn paratoi ar gyfer arholiadau allanol.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae ethos cynhaliol a chefnogol Ysgol Gwent Is Coed yn hyrwyddo lles disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn falch ac yn hapus o fod yn aelodau o'r gymuned hon. Maent yn cyd-dynnu'n dda â'u cyfoedion a staff ac yn cyfathrebu'n gwrtais a hyderus gydag oedolion ac ymwelwyr. Maent yn amyneddgar ac yn barchus o safbwyntiau ei gilydd wrth gydweithio o fewn parau a grwpiau.

Mae disgyblion yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant a thraddodiadau Cymreig, er enghraifft trwy gystadlu mewn Eisteddfodau. Roedd bron bob un disgybl yn cymryd rhan yn Eisteddfod rithiol yr ysgol yn ddiweddar. Mae disgyblion y 'Ganolfan Drochi' ar gyfer disgyblion o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn elwa o'r gynhaliaeth ieithyddol gan eu galluogi i symud i wersi prif lif yn fuan.

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac o'r farn eu bod yn cael eu trin yn deg. Maent yn ymwybodol o at bwy i droi os ydynt yn bryderus am unrhyw beth ac yn hyderus y bydd staff yr ysgol yn ymateb yn briodol. Mae mwyafrif y disgyblion yn teimlo bod yr athrawon yn eu hadnabod nhw'n dda ac yn gofalu amdanynt gydag empathi. Mae gan y mwyafrif o ddisgyblion ddealltwriaeth addas o sut i gadw'n ddiogel ar y we.

Mae mwyafrif y disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod briodol o glybiau allgyrsiol. Maent yn gwerthfawrogi effaith gadarnhaol y gweithgareddau hyn ar eu lles emosiynol a chorfforol. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn mynegi pryder am y diffyg lle sydd ar gael iddynt tu fewn a'r tu allan i'r adeilad yn ystod amseroedd egwyl a chinio.

Mae'r Cyngor Ysgol yn gwneud cyfraniad addas at benderfyniadau gwella'r ysgol. Er enghraifft, maent wedi cyfrannu at ddatblygu'r 'Cod Ymddygiad'. Mae'r Cyngor Eco yn cydweithio'n llwyddiannus gyda staff ffreutur yr ysgol i leihau'r defnydd o blastig ac wedi sicrhau bod biniau ychwanegol wedi eu gosod o gwmpas y safle. Ffurfiwyd y grŵp 'Hawl i Hunaniaeth' gan y disgyblion eu hunain er mwyn hyrwyddo a dathlu tegwch a chydraddoldeb. Ers ei sefydlu, mae'r grŵp wedi cymryd rhan mewn nifer o brosiectau pwrpasol. Mae hyn yn cynnwys cynnal stondin nwyddau i godi ymwybyddiaeth a chasglu arian i godi cerflun o'r Fonesig Rhondda, arwres leol a

chwaraeodd rhan flaenllaw gyda'r Swffragetiaid. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn chwarae rôl arweiniol werthfawr; er enghraifft, maent yn trefnu gweithgareddau hwyliog i wobrwyo disgyblion iau am eu cyfranogiad i'r ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi. Maent yn cyrraedd ar amser, yn ymdawelu'n gyflym ac yn dangos parodrwydd i ddysgu. Maent yn cydweithio'n gynhyrchiol gyda'u hathrawon a chyd-ddisgyblion, yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn ymateb yn aeddfed i adborth. Mae'r disgyblion hyn yn weithgar ac yn canolbwyntio trwy gydol y wers. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarn at eu dysgu. Maent yn rhy oddefol ac yn amharod i gyfrannu at weithgareddau. Mae ymddygiad ychydig iawn o ddisgyblion yn tarfu ar wersi'n rheolaidd.

Oherwydd y pandemig coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod y flwyddyn academaidd 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan lawer o athrawon berthynas waith agos a chynhyrchiol gyda'r disgyblion. Maent yn cynnig anogaeth fuddiol er mwyn ysgogi disgyblion i weithio'n ddiwyd yn eu gwersi. Llwyddant i gyfathrebu nodau ac amcanion eu gwersi yn eglur ac mae ganddynt wybodaeth bynciol dda. Mae mwyafrif yr athrawon yn fodelau iaith da ac yn cyflwyno geirfa a therminoleg bynciol bwrpasol er mwyn cyfoethogi ymatebion llafar ac ysgrifenedig y disgyblion. Yn ogystal, mae'r athrawon hyn yn cyflwyno strwythurau effeithiol i ddatblygu ac ymestyn medrau llafar y disgyblion.

Ym mwyafrif y gwersi, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n herio disgyblion yn briodol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o beth all disgyblion ei gyflawni. Mae tasgau yn adeiladu'n synhwyrol ar ei gilydd. Golyga hyn fod cyflymder addas i'r dysgu. Maent yn cynllunio a darparu adnoddau apelgar i gefnogi'r addysgu a'r dysgu.

Mewn ychydig o wersi, lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf a buan, mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol iawn er mwyn darparu gweithgareddau diddorol ac ysgogol i sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu llafaredd a medrau pwnc. Mae gan yr athrawon hyn frwdfrydedd heintus ac maent yn ysbrydoli disgyblion i weithio hyd eithaf eu gallu. Maent yn addasu cyflymder y dysgu yn gelfydd i ymateb i anghenion y disgyblion.

Yn yr ychydig o wersi ble nad yw disgyblion yn gwneud cynnydd cystal, nid yw athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn ddigon cadarn. Nid yw'r athrawon hyn yn cynllunio tasgau'n ddigon gofalus i fodloni anghenion y disgyblion. Nid yw'r tasgau'n ddigon heriol neu wedi eu haddasu yn briodol i gefnogi disgyblion gwan. Mae diffygion yng nghyflymder y dysgu ac nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu neu arwain gweithgareddau.

Mae mwyafrif yr athrawon yn holi cwestiynau'n gyson i wirio gwybodaeth y disgyblion, i fonitro eu cynnydd a symud y dysgu ymlaen. Maent yn cylchu'r dosbarth gan ymyrryd yn bwrpasol i gefnogi'r dysgu, lle bo angen. Maent yn cynnig adborth

llafar adeiladol ar safon gwaith ac ymdrech disgyblion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yn holi cwestiynau digon treiddgar i brocio meddwl a datblygu dealltwriaeth y disgyblion. Mewn ychydig achosion, maent yn ateb dros y disgyblion neu'n methu cyfleoedd i ddisgyblion ddangos eu dealltwriaeth.

Mae mwyafrif yr athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig defnyddiol ar waith disgyblion gan roi sylwadau penodol i'w cynorthwyo i wella eu gwaith. Mae cyfleoedd pwrpasol trwy'r 'cyfnod coch' i ddisgyblion ymateb i sylwadau'r athro a myfyrio ar ansawdd eu gwaith. Mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn rhoi digon o sylw i gywiro camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn ailadrodd yr un camgymeriadau.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm priodol yng nghyfnod allweddol 3, gyda chynlluniau clir sy'n adnabod mannau cychwyn disgyblion yn dilyn y cyfnodau clo. Mae lleiafrif o bynciau yn dewis themâu dengar iawn i ddal sylw ac ymateb i ddiddordebau disgyblion ac mae hyn yn eu hysbrydoli i gynhyrchu gwaith estynedig o safon dda. Er enghraifft, yn eu gwersi Cymraeg, mae'r disgyblion yn trafod digartrefedd ac yn falch o'u gwaith ysgrifennu ymson fel person digartref.

Ceir arlwy addas o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4 gydag opsiynau sy'n bodloni llawer o'r disgyblion ac yn arwain at gymwysterau priodol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion lleol eraill i ymestyn yr arlwy ôl-16 er mwyn ymateb i alw disgyblion am bynciau penodol. Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol trwy ychydig o weithgareddau chwaraeon a diwylliannol.

Mae'r pennaeth wedi datblygu a rhannu gweledigaeth glir gyda'i staff ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru o Fedi 2022. Fodd bynnag, mae'r paratoadau a chynllunio yn anghyson ar draws y pynciau.

Mae'r ysgol yn cynllunio a gweithredu'n dda i ddatblygu medrau llafar disgyblion. Mae'r rhaglen 'Llafar Llwyddiannus' wedi ei gwreiddio ar draws y gwersi a'r cyfnodau boreol ac yn sicrhau disgwyliadau uchel o fedrau llafar pob unigolyn. O ganlyniad i'r gwaith cyson ar draws y cwricwlwm, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau llafar da yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae athrawon yn cynllunio'n bwrpasol i ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion yn y gwersi Cymraeg a Saesneg. Mae'r ysgol wedi cynllunio'n briodol i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm ym Mlwyddyn 7 ond nid yw hyn wedi ei ymestyn i flynyddoedd eraill. Nid yw'r ysgol wedi cynllunio digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu cymhwysedd digidol.

Mae'r ysgol yn blaenoriaethu datblygu dealltwriaeth disgyblion o gydraddoldeb a thegwch. Mae cyfleoedd gwerthfawr iddynt astudio'r agweddau hyn ar draws y cwricwlwm. Mae cyfraniad disgyblion grŵp 'Hawl i Hunaniaeth' wrth gynllunio gwersi addysg bersonol a chymdeithasol (gwersi CAD) yn gryfder. Mae'r disgyblion hyn wedi cynllunio gwersi i gynorthwyo eu cyd-ddisgyblion i ddathlu amrywiaeth, er enghraifft trwy ystyried profiadau pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac LHDTC+. Mae'r rhaglen foreol wedi ei chynllunio'n grefftus i gynnwys gweithgareddau datblygu iaith sy'n galluogi'r disgyblion i drafod pynciau cyfoes yn huawdl.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Gwent Is Coed yn ysgol gynhwysol a chyfeillgar. Yn gyffredinol, mae gan staff adnabyddiaeth dda o'r disgyblion ac maent yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi eu lles. O ganlyniad, mae agweddau at ddysgu a lles llawer o ddisgyblion yn gadarnhaol.

Mae gan yr ysgol raglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) briodol ac mae agweddau defnyddiol o fewn y rhaglen hon yn cefnogi datblygiad emosiynol a chymdeithasol y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael dylanwad digon cadarnhaol ar ymddygiad ychydig o ddisgyblion yn y gwersi ac o amgylch yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynnig ychydig o ymyraethau a chefnogaeth ychwanegol ddefnyddiol er mwyn cefnogi disgyblion sydd ag anghenion emosiynol neu anawsterau ymddygiadol. Er enghraifft, mae'r ystafell 'Cwtsh' yn darparu man diogel a chymorth gwerthfawr i nifer cyfyngedig o ddisgyblion bregus. Mae hyn yn eu cefnogi i fod yn barod ar gyfer dysgu ac yn eu cynorthwyo i ymdopi â'u gwaith. Mae'r ysgol yn defnyddio dull adferol o ymateb i ddigwyddiadau o gamymddwyn er mwyn sicrhau bod disgyblion yn deall effaith eu gweithredoedd ar eraill. Mae'r drefn hon yn dechrau cael dylanwad cadarnhaol ar ymddygiad ychydig o ddisgyblion.

Mae arweinwyr lles yn cydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol er mwyn ymateb i anawsterau penodol a chynnig cynhaliaeth berthnasol i nifer fechan o ddisgyblion. Serch hynny, mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi'r disgyblion hyn yn gyfyngedig yn gyffredinol.

Ers ei phenodi yn Ebrill 2021, mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi darparu hyfforddiant a rhannu gwybodaeth fuddiol i staff i'w helpu i ddeall eu cyfrifoldeb wrth wireddu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 (Cymru). Fodd bynnag, nid yw rôl y cydlynydd ADY wedi ei datblygu'n llawn. Mae gan yr ysgol fap darpariaeth cyfredol sy'n amlinellu natur y gefnogaeth i ddisgyblion ag ADY ond nid yw'r ysgol yn gallu cynnig ystod eang o ymyraethau i'r disgyblion hyn oherwydd prinder adnoddau. Mae'r ysgol yn cydweithio'n addas gydag ychydig o asiantaethau allanol arbenigol er mwyn cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu mwy dwys. Mae proffiliau un-tudalen yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am ddisgyblion. Mae defnydd athrawon o'r wybodaeth yn y proffiliau i gynllunio gwersi yn dechrau datblygu.

Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau a chyfrannu at fywyd yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r Cyngor Ysgol yn gwneud cyfraniad buddiol i wella amgylchedd yr ysgol. Fodd bynnag, cyfyngedig yw dylanwad y Cyngor Ysgol ar ansawdd yr addysgu.

Mae trefniadau priodol ar gyfer addoli ar y cyd gan gynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd cadarn wrth drafod eu credoau moesegol ac ysbrydol. Er enghraifft, wrth drafod hawliau ffoaduriaid ac anghydraddoldeb mewn cyfnodau cofrestru.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod briodol o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol sydd yn hyrwyddo ffordd iach o fyw ac yn rhoi cyfle da i ddisgyblion ddatblygu'n gymdeithasol. Mae disgyblion Blwyddyn 6 y clwstwr a disgyblion Blwyddyn 7 Ysgol Gwent Is Coed yn cydweithio'n frwdfrydig er mwyn paratoi cyflwyniad yn y theatr yng Nghasnewydd. Mae'r ysgol yn cynnig ystod dda o deithiau addysgol gwerthfawr gan

gynnwys teithiau tramor i sgïo ac i wlad Belg. Yn ogystal, trefnir teithiau mwy lleol a chwrs preswyl blynyddol i ddisgyblion Blwyddyn 7 er mwyn hyrwyddo Cymreictod, treftadaeth Gymreig a throchi'r disgyblion yn yr iaith Gymraeg.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant addas o ddiogelu. Mae arweinwyr yn sicrhau bod lefel briodol o hyfforddiant ar gyfer staff fel eu bod yn deall eu cyfrifoldeb i amddiffyn plant. Mae trefn gyfeirio addas pan mae pryder am ddiogelu disgybl ac mae gwybodaeth sensitif yn cael ei chadw'n briodol. Fodd bynnag, mae materion iechyd a diogelwch o ran y safle. Mae'r cae chwarae gryn bellter o'r prif adeilad sy'n golygu heriau goruchwylio gan nad oes ffens o amgylch y cae ac mae'n agored i'r cyhoedd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Penodwyd y pennaeth yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf ym mis Mehefin 2020. Ers ei phenodi, yn ychwanegol i'r heriau sylweddol yn sgil y pandemig, mae hi wedi wynebu heriau arwyddocaol eraill o ran materion staffio a gwaith adeiladu aflonyddgar wrth i'r ysgol dyfu a datblygu. Mae hyn wedi llesteirio ei gallu hi ac arweinwyr eraill i ddatblygu ychydig o agweddau pwysig ar waith yr ysgol.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddathlu Cymreictod ac addysg Gymraeg. Mae hi'n anelu at ddatblygu disgyblion sy'n ymfalchïo yn eu cymuned leol, a'i chydnabod hi fel ardal unigryw o Gymru o ran diwylliant, cymdeithas a hanes. Un o brif amcanion yr ysgol yw annog y cydweithrediad gorau posibl rhwng pob aelod o gymuned yr ysgol. Mae'r pennaeth yn cyfathrebu ei gweledigaeth ac amcanion yr ysgol yn eglur gyda'r holl randdeiliaid.

Mae'r pennaeth yn arweinydd diymhongar a gweithgar sy'n rhoi o'i gorau i gefnogi lles holl gymuned yr ysgol. Mae hi'n gynhaliol o'i staff ac mae'n gweithio'n ddyfal i sicrhau tegwch a chefnogaeth i bob un. Cefnogir y pennaeth yn gadarn gan y dirprwy bennaeth ac mae'r uwch dîm estynedig, 'Y Tîm Llywio', yn cyfrannu'n addas at gyfeiriad strategol yr ysgol. Mae llawer o gyfrifoldebau gan y pennaeth ac mae hyn yn cyfyngu ar ei gallu i weithredu'n strategol. Drwyddi draw, nid yw arweinwyr yn gweithredu'n ddigon rhagweithiol ac mae hyn yn golygu bod llawer o amser yn cael ei dreulio yn ymateb i faterion dydd i ddydd. Mae'r cynllunio strategol ar gyfer cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol yn briodol ond yn ei ddyddiau cynnar.

Rhoddir sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol fel lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a gwella medrau disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi gweithio'n gynhyrchiol i godi safonau llafaredd disgyblion trwy'r fenter 'Llafar Llwyddiannus' traws-ysgol. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn siaradwyr Cymraeg huawdl sy'n cyfrannu'n dda ar lafar mewn gwersi. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn ddigon cydlynol. Mae ysgol wedi dechrau cynllunio'n strategol ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru ond mae'r paratoadau yn anghyson ar draws y pynciau.

Cynhelir cyfarfodydd rheoli llinell rheolaidd ar bob lefel. Mae'r cyfarfodydd hyn yn dilyn trefn ac agenda gyffredin. Yn gyffredinol, mae arweinwyr a staff yn cynnal trafodaethau buddiol a chynhyrchiol ar lawer o agweddau ar waith yr ysgol. Fodd

bynnag, nid yw'r trafodaethau am safonau disgyblion ar draws yr holl ysgol nac ansawdd yr addysgu yn nodweddion digon cyson mewn cyfarfodydd rheolaethol. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn briodol ac mae'r amcanion yn cyd-fynd â phrif flaenoriaethau'r ysgol ynghyd â chefnogi datblygiad proffesiynol a dyheadau personol staff. Mae'r pennaeth yn delio'n deg a phriodol gyda staff sy'n tanberfformio.

Dros gyfnodau clo'r pandemig, cafwyd cyfathrebu cyson a buddiol rhwng yr ysgol a'r rhieni a rhoddwyd cefnogaeth werthfawr i deuluoedd. Ar y cyfan, mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu perthynas adeiladol gyda rhieni, ond nid yw arweinwyr yn caffael eu barn am waith yr ysgol yn ddigon rheolaidd.

Mae'r llywodraethwyr yn deall eu rolau ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol, ar y cyfan. Maent yn angerddol dros yr ysgol a thros sicrhau addysg Gymraeg yn sir Casnewydd. Maent yn sicrhau trefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Mae eu rôl fel cyfaill beirniadol yn datblygu'n addas. Mae'r llywodraethwyr, y pennaeth a'r rheolwr busnes yn rheoli adnoddau'r ysgol yn ofalus. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o grantiau gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion.

Mae gan yr ysgol galendr hunanwerthuso pwrpasol sy'n amlinellu'r gweithgareddau a'r dyddiadau pwysig ar eu cyfer. Caiff y rhain eu gweithredu'n rheolaidd ac mae holl arweinwyr yr ysgol ynghlwm â'r broses. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys prosesau defnyddiol i graffu ar waith disgyblion a gwirio ansawdd yr addysgu. Mae arweinwyr yn dechrau arbrofi â llais y dysgwr fel dull o gaffael barn. Er bod yr ysgol yn monitro'r ddarpariaeth drwy'r gweithgareddau hyn, maent yn canolbwyntio'n bennaf ar gysondeb a gweithdrefnau cydymffurfio. Er enghraifft, mae adolygiadau llyfrau yn gwirio a oes cyfleoedd i ddisgyblion gwblhau gweithgareddau asesu 'cyfnod coch' yn hytrach nag effaith y gweithgaredd hwn ar eu gwaith. Yn gyffredinol, nid yw arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar safonau disgyblion a'r effaith mae addysgu yn ei chael ar ddatblygiad eu medrau a'u cynnydd pynciol.

Yn gyffredinol, mae cyswllt addas rhwng canfyddiadau prosesau hunanwerthuso'r ysgol a'r prif flaenoriaethau gwelliant. Mae cynllun gwella'r ysgol yn ymateb i effaith y pandemig ac yn talu sylw priodol i wella safonau addysgu ac adnabod anghenion lles disgyblion. Serch hyn, nid yw'r gweithredoedd bob amser yn ddigon miniog er mwyn codi safonau disgyblion. Mae rhai o'r blaenoriaethau yn ffocysu'n ormodol ar ganlyniadau arholiadau allanol yn hytrach na safonau a chynnydd yr holl ddisgyblion mewn gwersi a thros amser.

Mae'r ysgol yn gweithio'n ddiwyd i greu diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol. Nodwedd werthfawr o hyn yw'r cyfleoedd i athrawon weithio mewn fforymau i gyfoethogi eu dealltwriaeth o addysgu llwyddiannus ac iddynt arbrofi â syniadau ar sail ymchwil. Mae'r ysgol yn dechrau ar y broses o fesur effaith yr hyfforddiant hwn ar safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Rhoddir cyfleoedd eang i staff fynychu cyrsiau gan ddarparwyr allanol a chyfrannu i rwydweithiau. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr yn cynllunio'n yn ddigon strategol i sicrhau bod yr hyfforddiant hwn yn cysylltu ag anghenion a blaenoriaethau'r ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.gov.wales/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.gov.wales/

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 13/07/2022